# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Tachwedd 2021

Amser: 14.00 - 15.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12489

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Luke Fletcher AS<br>Joel James AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | Jonathan Rhys Williams, Deisebydd |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Sesiwn Dystiolaeth - P-06-1224 Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y deisebydd.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-06-1185 Dylai cyfnod preswylio 3 blynedd o leiaf fod yn ofynnol i bob ymgeisydd yn etholiadau'r Senedd

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd i'w hysbysu ynghylch y ddeiseb hon, pe bai'r Pwyllgor hwnnw'n penderfynu ystyried y maes dan sylw. Wrth ysgrifennu at y Pwyllgor Diben Arbennig, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb, gan ddiolch i'r deisebydd.

### 3.2 P-06-1186 Dylid atal pobl nad ydynt wedi byw yng Nghymru ers o leiaf 6 mis rhag ymgeisio yn etholiadau'r Senedd

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd i'w hysbysu ynghylch y ddeiseb hon, pe bai'r Pwyllgor hwnnw'n penderfynu ystyried y maes dan sylw. Wrth ysgrifennu at y Pwyllgor Diben Arbennig, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb, gan ddiolch i'r deisebydd.

### 3.3 P-06-1206 Adolygwch safonau Mynediad i Bractis Cyffredinol yng Nghymru yng ngoleuni pandemig

Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod effaith y pandemig ar feddygon teulu ac wedi ymestyn y cyllid sydd ar gael am flwyddyn arall i gefnogi'r broses o weithredu ac ymgorffori'r safonau mynediad. Nododd y Pwyllgor hefyd fod Pwyllgor Ymarfer Cyffredinol Cymdeithas Feddygol Prydain wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch y safonau a'r contractau gwasanaeth. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, gan ddiolch i'r deisebydd.

### 3.4 P-06-1207 Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Yn flaenorol, roedd yn aelod o'r Grŵp Llywio ar Faterion y Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i Gomisiynydd y Gymraeg am ei sylwadau ar y mater hwn, gan ofyn iddo hefyd a yw'n gwneud unrhyw waith yn y maes hwn.

### 3.5 P-06-1210 Ataliwch Lywodraeth Cymru rhag cyflwyno terfyn cyflymder cyffredinol o 20 milltir yr awr

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu yn ôl at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i ofyn am fanylion pellach am y broses eithrio.

### 3.6 P-06-1211 Dylid cael gwared ar y camerâu cyflymder cyfartalog a'r terfyn cyflymder o 50mya ar yr M4 rhwng Casnewydd a Chaerdydd

Nododd y Pwyllgor bryderon y deisebydd, ond nododd hefyd fod strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar yr amgylchedd, ansawdd aer a llesiant pobl drwy ganolbwyntio ar deithio amgen a gwella'r seilwaith ar gyfer teithio cyhoeddus. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gael gwared ar y camerâu cyflymder cyfartalog ar hyn o bryd, a chytunodd yr Aelodau i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 3.7 P-06-1213 Dylid gwahardd defnydd hamdden o Seadoo/sgïo jet yng Nghymru. Ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym

Yn sgil y ffaith y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei hymateb i ymgynghoriad ar y mater hwn mewn tri mis, cytunodd y Pwyllgor i aros am yr ymateb hwn cyn trafod y ddeiseb hon ymhellach.

Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i weld a fu unrhyw gydlynu ar y mater hwn rhwng awdurdodau lleol morwrol yng Nghymru.

# 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

## 4.1 P-05-912 Cynorthwyo teuluoedd sy’n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl

Estynnodd y Pwyllgor ei longyfarchiadau i Rhian Mannings, y deisebydd, a phawb sydd wedi cefnogi’r ddeiseb ar sicrhau newid cadarnhaol ac ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd pawb sy'n colli plentyn neu oedolyn ifanc yn cael cynnig gofal a chymorth profedigaeth ar unwaith, a hynny’n unol â safonau y cytunir arnynt. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau hefyd i ddefnyddio'r ddeiseb hon fel astudiaeth achos ar gyfer deisebau yn y dyfodol.

## 4.2 P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid!

Nododd y Pwyllgor y bydd yn cymryd amser i sefydlu ac ymgorffori dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran darparu gwasanaeth 24 awr y dydd lle cynigir ymatebion priodol a llwybrau cymorth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid i wneud cais bod y ddeiseb a'r ohebiaeth yn cael eu cynnwys fel rhan o waith craffu yn y dyfodol ar wasanaethau iechyd meddwl.

Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i Laura am rannu ei phrofiadau o ran yr heriau y mae'n parhau i'w hwynebu wrth geisio cael mynediad at gymorth iechyd meddwl priodol ac amserol, a hynny er mwyn dylanwadu ar y broses a’i newid er budd eraill sy’n wynebu amgylchiadau tebyg. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gau'r ddeiseb.

## 4.3 P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd newydd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwaith y gweithgor, ynghyd ag amserlen ar gyfer gweld cynnydd ar y mater hwn.

## 4.4 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Derbyniodd y Pwyllgor y dull a gafodd ei argymell yn y papur cwmpasu, a chytunodd i gymryd tystiolaeth uniongyrchol gan rieni sydd wedi bod mewn gofal, awdurdodau lleol, CAFCASS a sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi pobl ifanc. Cytunodd hefyd i wahodd academyddion o'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant ym Mhrifysgol Caerdydd i gyflwyno canfyddiadau eu hymchwil yn y maes hwn.

## 4.5 P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONT-FAEN RHAG EI DYMCHWEL

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi cynnal trafodaethau uniongyrchol â'r deisebwyr ynghylch y mater hwn.

Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r ddeiseb ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn.

## 4.6 P-05-895 Etifeddiaeth Rosa: Dylid cyflwyno cynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes

Nododd y Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26 yn fuan. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog unwaith eto, ac am y tro olaf, i wneud cais bod sylw yn cael ei roi i'r galwadau am gynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes. Wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cau'r ddeiseb ac yn diolch i'r deisebydd am godi'r mater hwn.

## 4.7 P-05-1040 Cyflwyno moratoriwm ar gymeradwyo unrhyw losgyddion gwastraff newydd ar raddfa fawr yng Nghymru.

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno moratoriwm ar ynni newydd ar raddfa fawr o weithfeydd gwastraff, a'i fod yn gwerthfawrogi manylion pellach ynghylch y broses.

Yn sgil y ffaith nad oedd gan y deisebydd unrhyw faterion pellach i'w codi, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ac i longyfarch y deisebydd ar sicrhau canlyniad llwyddiannus.

### 4.8 P-05-1112 Helpwch gymunedau yng Nghymru i brynu asedau cymunedol: Gweithredwch Ran 5, Pennod 3 o Ddeddf Lleoliaeth 2011

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yma, gan ofyn iddi hefyd sut mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r mater hwn.

### 4.9 P-06-1160 Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog unwaith eto i ofyn am eglurder ynghylch a fydd gan fyfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref yr un hawliau a'r un mynediad at gymwysterau â phlant eraill, ac ynghylch a fyddant yn gallu sefyll eu harholiadau mewn canolfannau arholi lleol, a hynny'n rhad ac am ddim.

### 4.10 P-06-1163 Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sydd wrthi'n craffu ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gan ofyn iddo ystyried a fydd yr anghysondeb a amlygwyd gan y deisebydd yn parhau yn sgil y Bil, ac i ystyried a fyddai modd newid y Bil er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i rannu'r linc ar gyfer yr ymgynghoriad cyfredol ynghylch y Bil gyda'r deisebwyr. Cytunodd y Pwyllgor i ddod â'r ddeiseb yn ôl unwaith y bydd

Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

### 4.11 P-06-1178 Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i longyfarch y deisebydd ar ddylanwadu ar feddylfryd y Gweinidog, gan ychwanegu bod y Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau terfynol maes o law. Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r ddeiseb ar agor tan y bydd canlyniadau'r adolygiad cymhwystra ar gael.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6.

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod Sesiwn Dystiolaeth - P-06-1224 Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.